Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 04.03.2021

## Estyniad o 12 mis i'r cynllun sy'n rhoi hoe rhag talu ardrethi busnes

Ddoe, 3 Mawrth 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y bydd y cynllun sy'n golygu nad yw busnesau yn y sectorau manwerthu, hamdden a lletygarwch yng Nghymru yn gorfod talu ardrethi yn cael ei estyn am 12 mis arall. Ar gyfer y Datganiad i'r Wasg llawn, ewch i:

https://llyw.cymru/estyniad-o-12-mis-ir-cynllun-syn-rhoi-hoe-rhag-talu-ardrethi-busnes

## Cyllideb Llywodraeth y Deyrnas Unedig 2021

Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi cyhoeddi ei Chyllideb Wanwyn. Mae estyniad o'r Cynllun Cefnogi Swyddi hyd at fis Medi 2021 ledled y DU ac estyniad o'r cynllun Cymhorth Incwm i'r Hunangyflogedig ledled y DU hyd at fis

Medi 2021 yn ddau o'r pwyntiau allweddol. Am fwy o wybodaeth am rhain a'r pwyntiau allweddol eraill, ewch i wefan Busnes Cymru:

http://bit.ly/2O0dKxQ

## DIWEDDARIAD: Canllawiau ar gyfer busnesau twristiaeth a lletygarwch: coronafeirws

Mae Llywodraeth Cymru wedi diweddaru y canllawiau i fusnesau twristiaeth a lletygarwch i gadw gweithwyr ac ymwelwyr yn ddiogel yn ystod pandemig coronafeirws (COVID-19), ewch i:

https://llyw.cymru/canllawiau-ar-gyfer-busnesau-twristiaeth-a-lletygarwch-coronafeirws

## Fframwaith profi COVID-19 yn y gweithle

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ar sut y byddant yn cynnig profi am COVID-19 i weithleoedd sector cyhoeddus a phreifat. Bydd cefnogaeth Llywodraeth Cymru i brofion asymptomatig rheolaidd mewn gweithleoedd yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn canolbwyntio ar weithleoedd:

- lle mae gweithwyr yn dod i fwy o gysylltiad â risg
- lle mae gweithwyr yn gweithio'n agos at bobl eraill
- sydd â > 50 o weithwyr nad ydynt yn gallu gweithio gartref
- sy'n darparu a chynnal gwasanaethau allweddol ar gyfer y cyhoedd

Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://llyw.cymru/fframwaith-profi-covid-19-yn-y-gweithle-html

## Ein Cynhyrchwyr: Cywain

Mae Cywain, rhan o Menter a Busnes Cymru, yn gweithio gyda busnesau bwyd a diod sy'n canolbwyntio ar dwf. Mae hyn yn cynnwys busnesau newydd sydd angen cymorth a chefnogaeth er mwyn dechrau, a busnesau sydd eisoes wedi sefydlu ac sy'n dymuno tyfu. Gall Cywain gefnogi eich busnes mewn sawl ffordd – dangos i chi sut i wneud eich busnes yn fwy cystadleuol, cynnig

cyfleoedd i gydweithio gydag eraill o fewn y gadwyn gyflenwi a'ch cynorthwyo i ddatblygu sgiliau newydd. Mae Cywain wedi datblygu map, sy'n tyfu'n barhaus i'w gwneud hi'n haws nag erioed i ddarganfod cynhyrchwyr mewn gwahanol ardaloedd yng Nghymru. Mae'r holl gynhyrchwyr dan sylw yn cynnig gwasanaeth prynu a dosbarthu ar-lein. I weld mwy am hyn, ewch i:

https://menterabusnes.cymru/cywain/ein-cynhyrchwyr/

Am fwy o wybodaeth am Cywain, ewch i:

https://menterabusnes.cymru/cywain/

## Seiberddiogelwch ar gyfer Unig Fasnachwyr a Microfusnesau

Os ydych chi'n gweithio i chi eich hun neu'n rhedeg busnes bach gyda llai na 10 o weithwyr, does dim rhaid i seiberddiogelwch fod yn dalcen caled i berchnogion busnesau bach. Mae'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol (NCSC) wedi llunio camau y gallwch eu cymryd i ddiogelu eich hun ar-lein, ac mae Cyber Aware yn hyrwyddo chwe cham ymarferol i helpu i'ch diogelu chi a'ch busnes, ewch i:

https://bit.ly/3bZBlqv

Gall busnesau hefyd gwblhau adnodd hunanasesu i helpu i weld pa mor ddiogel ydyn nhw rhag bygythiadau seiber a bydd yr adnodd hefyd yn rhoi cyngor ar feysydd i'w gwella. Am ragor o wybodaeth, ewch i wefan NCSC:

https://www.ncsc.gov.uk/news/cyber-aware-action-plan

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

# Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

# Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

# Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

# FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

# Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os oes gennych gwestiwn neu angen cyngor ebostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru